## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar 26 Hydref 2005 am 9.30 y bore.

### PRESENNOL

Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), J. R. Bartley, R. E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, M. Ll. Davies, S. A. Davies, G. C. Evans, S. Frobisher, I. M. German, M. A. German, K. N. Hawkins, T. R. Hughes, N. Hugh-Jones, E. R. Jones, G. M. Kensler, P. W. Owen, N. P. Roberts, D. A. J. Thomas, J. Thompson-Hill, C. H. Williams, E. W. Williams, R. Ll. Williams.

### YN BRESENNOL HEFYD

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Ceisiadau Bach), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU ODDI WRTH

Cynghorwyr D. Jones, H. Jones, J. Davies, D. Hannam, T. Hodgeson, M. A. Webster.

### 513 MATERION BRYS

Dim.

### 514 CAIS AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus (dosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd a'r penderfyniadau y gofynnir i'r Pwyllgor eu gwneud.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) y dylid cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir gerbron, ac y dylid caniatáu neu wrthod cynllunio fel ag sy'n briodol ymhob achos dan Orchymyn Cynllunio Tref a Sir (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Gynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysybiad Cynllunio Tref a Sir, 1994 a/neu Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a argymhellir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 41/2005/0849/PO | **Siaradwr Cyhoeddus O Blaid – G. Kenyon**<br>Yn dilyn ystyried 4 o lythyrau gyda sylwadau pellach oddi wrth: Cyngor Sir Bodffari; Pennaeth Cludiant, Pennaeth Tai WF, Glazebrook, Neuadd Pontruffydd; Bodffari.<br>Datblygu 0.49 hectar o dir drwy godi 10 annedd ac addasiadau i'r fynedfa i gerbydau sydd yno eisoes (cais amlinellol).<br>**Tir wrth gefn Dinorben Arms, Bodffari, Dinbych**<br>Ar gais Aelodau, cyfeiriwyd y cais(ceisiadau) materion wrth gefn i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer penderfyniad.<br>**CANIATÁU yn amodol ar: Amodau Diwygiedig/Ychwanegol** |

1. Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, derbyn manylion y safle, dyluniad, a golwg allanol yr adeilad ...ayb.

6. Dylid cynnal unrhyw blannu, hadu, gosod glaswellt, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall a geir yn y manylion tirlunio a dderbyniwyd yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl i bobl symud i'r tai y maent yn cyfeirio atynt. Yn achos unrhyw goed neu blanhigion sy'n magu afiechyd, sy'n marw neu sy'n cael eu symud o fewn pum mlynedd i'r datblygiad, dylid sicrhau bod eraill o'r un maint a rhywogaeth yn cael eu plannu yn ystod y tymor plannu nesaf.

7. Dileu a gosod y canlynol yn lle:

Ac eithrio manylion y fynedfa o'r briffordd i haen isaf y maes parcio, mae'r cynlluniau gosodiad a gyflwynwyd fel rhan o'r cais wedi'u trin ar gyfer dibenion darluniadol yn unig, ac nid ydynt yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn.

*Rheswm:* I osgoi amheuaeth.

8. (a) (iii) "trefniadau", (b) (i) ... i ddarparu a chynnal gofod agored mewn cysylltiad â'r datblygiad. (b) (ii) Yn achos diffyg darparu gofod agored o fewn y safle, trefniadau ar gyfer talu symiau cyfnewidiol am ddarpariaeth i ffwrdd o'r safle a chynhaliaeth yn y dyfodol.

9. "...caniateir felly, manylion o arolygon safle", "...arolwg clwydo ac arolwg nythu)", "...dechrau unrhyw ddatblygiad".

11. Dileu a gosod y canlynol yn lle:

Dylai unrhyw anheddau y bwriedir eu rhoi ar haen uchaf y maes parcio fod o uchder llawr sengl heb ddim ystafelloedd o fewn gofod y toeon.

*Rheswm:* Er budd edrychiad allanol, i gyfyngu ar effaith y datblygiad ar yr haen uchaf.

**Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd**

1. Fe'ch cynghorir i drafod bras argymhellion ar gyfer y datblygiad gyda'r swyddog Achos Rheoli Datblygiad cyn cyflwyno unrhyw faterion sydd wrth gefn. Mae'r Awdurdod yn arbennig o awyddus i sicrhau bod effaith yr adeiladau ar haenau uchaf y safle yn dderbyniol yn nhermau gofynion yr Ardal Gadwraeth, adeiladau rhestredig cyfagos, a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, sy'n mynnu ystyriaeth ofalus gyda'r dyluniad, gosodiad, lefelau'r safle a'r tirlunio.

2. Fe'ch cynghorir i gysylltu â swyddogion i drafod sut i ymdrin â darparu tai fforddiadwy fel rhan o'r datblygiad.

(Roedd y Cynghorydd I. M. German yn dymuno nodi ei bod wedi ymatal rhag pleidleisio gan ei bod wedi cyrraedd yn ystod y ddadl).

43/2005/0912/PF

Codi estyniad to gogwydd ar flaen yr adeilad
**Melyd Arms, 23 Ffordd Talargoch, Prestatyn**
**CANIATÁU**

43/2005/1049/PF

Codi estyniad dau lawr to gogwydd gydag islawr a phaneli solar yn y to a thwrbeini gwynt
**113 Ffordd Meliden, Prestatyn**
**CANIATAU Yn Amodol ar Amod Ychwanegol 4 a Nodyn i'r Ymgeisydd**

4. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni chymeradwyir y twrbeini gwynt fel rhan o’r cais hwn. Ni ddylid gosod unrhyw dwrbeini ar yr adeilad hyd nes y bydd manylion llawn o ddyluniad y twrbeini ac asesiad effaith sŵn wedi’u cyflwyno i, ac wedi’u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol am y math penodol o dwrbein. Dylai manylion o’r fath gynnwys cyfrifiadau a mesuriadau manwl-gywir o unrhyw sŵn a gynhyrchir gan y twrbeini gan ystyried adeiladau cyfagos ac effeithiau posibl.
*Rheswm:* Nid yw’r Awdurdod yn credu bod digon o fanylion i asesu effaith posibl y twrbeinio ar gyfleusterau trigolion eiddo cyfagos.
**Nodyn i’r Ymgeisydd**
1. Mewn perthynas ag Amod 4 o’r caniatâd hwn, fe’ch cynghorir i gysylltu gyda’r Swyddog Achos Rheoli Datblygiad a’r Swyddog Rheoli Llygredd Diogelu’r Cyhoedd i drafod ffordd addas ymlaen, cyn cyflwyno unrhyw gynigion pellach.
(Ar gais Aelodau, cytunwyd y byddai unrhyw gais manwl yn ymwneud â’r twrbeini gwynt yn dod gerbron y Pwyllgor ar gyfer ystyriaeth).

43/2005/1067/PO

**Siaradwr Cyhoeddus o Blaid - H.Griffiths Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes)**
**Siaradwr Cyhoeddus Yn Erbyn: Bob Cooper (ar ran y trigolion)**
Yn dilyn ystyriaeth o adroddiad ar ymweliad safle ar 21/10/05 a chyfarfod gyda swyddogion a’r cyhoedd a gynhaliwyd yng Nghapel Deva, Prestatyn ar 13 Hydref 2005. Derbyniwyd 6 o lythyrau gyda sylwadau pellach oddi wrth: Asiantaeth yr Amgylchedd; CCW; Mark Sherwood AC; Cymdeithas Prestatyn a’r Ardal, D ac J Owen, 50 Ffordd Penrhwylfa; R. Cooper, (ail lythyr).
Datblygu 2.5 hectar o dir ar gyfer ysgol gynradd gyda mynediad cysylltiedig i gerbydau a cherddwyr (cais amlinellol).
**Tir ar Fferm Plas Morfa, Ffordd Penrhwylfa, Prestatyn**
Yn amodol ar yr Amodau Canlynol
Penderfynodd y pwyllgor roi CANIATAD cynllunio. Yn amodol ar y Cais yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn.
Mae’r Cais i’w gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd ynghyd â llythyr yn esbonio’r sefyllfa ar hyn o bryd a’r cyfeirio at y Cyngor Llawn.
Materion penodol i ymdrin â hwy yn yr adroddiad i’r Cyngor Llawn: Llifogydd. Asesu ymateb/cais Asiantaeth yr Amgylchedd am eglurhad o wybodaeth lefelau, a’r effeithiau ar eiddo cyfagos.
**Amodau Diwygiedig**
9. “Adeilad yr ysgol...” (nid “gwyliau”).
12. Dylid cyflwyno manylion o’r gosodiad, dyluniad, dull adeiladu, tawelu traffig, goleuadau a draeniad o’r fynedfa i’r safle (dan y pennawd “gwaith ar y briffordd”) a ddangosir ar Luniad Rhif H4/05501/D/A, i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a dylid eu cymeradwyo’n ysgrifenedig cyn i’r datblygiad ddechrau. Dylid cwblhau’r “gwaith ar y briffordd” cyn i’r ysgol gael ei defnyddio am y tro cyntaf. Bydd awditau diogelwch perthnasol o’r manylion a bydd camau dylunio cychwynnol a manwl.

14. Cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau, rhaid cyflwyno cynllun manwl i ymdrin â'r gilfach barcio gyfagos ar Ffordd Penrhwylfa a rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd cynllun o'r fath yn cynnwys lle digonol i droi a chau i ffwrdd un o'r pwyntiau mynediad. Rhaid cynnal yr holl waith a gymeradwywyd yn llawn cyn i'r ysgol gael ei defnyddio am y tro cyntaf.
*Rheswm:* Er budd diogelwch ar y ffordd fawr.
(Roedd y Cynghorwyr S. Thomas ac R. Ll. Williams yn dymuno nodi eu bod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd).

44/2005/0650/PF

Yn dilyn ystyried 1 llythyr gyda sylwadau pellach o: Cyngor Tref Rhuddlan.
Codi ystafell fwyta ystafell haul ar yr ochr, ystafell fwyta un llawr/estyniad toiled yn y cefn, cegin/stordy/ystafell gypyrddau dau lawr yn y cefn a newidiadau i'r blaen.
**Bwyty Old Bank Stryd Fawr, Rhuddlan, Rhyl**
**CANIATAU**

45/2005/0687/PF

Gosod blaen siop newydd ac amrywiad i amod Rhif 2 caniatâd cynllunio 45/2004/1248/PF i alluogi cynyddu oriau agor dosbarth A3 tecawê, o gau am 22.00 yr hwyr i 23.00 yr hwyr.
**Uned 2(18) yn 18/20 Vale Road, Rhyl**
(Diolchodd D. A. J. Thomas i'r swyddogion am y gwaith o drafod cwtogi'r oriau o'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol).

45/2005/1004/PF

Datblygu 0.19 hectar o dir drwy ddymchwel yr adeilad presennol a chodi fflatiau a garejys ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr (cais amlinellol).
**51/52 East Parade, Rhyl**
CANIATAU Yn Amodol ar Amod Diwygiedig
5. Yn achos 10 neu fwy o unedau yn cael eu darparu ar y safle, ni ddylid caniatáu i ddatblygiad ddechrau cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gymeradwyo'n ysgrifenedig, naill ai.
(i) Y trefniadau i ddarparu a chynnal yn y dyfodol ofod agored o fewn y safle yn unol â safonau'r Awdurdod, neu
(ii) Yn achos methu â darparu gofod agored o fewn y safle, trefniadau ar gyfer talu symiau cyfnewidiol am ddarpariaeth i ffwrdd o'r safle a chynhaliaeth yn y dyfodol.
(Pleidleisiodd J. Chamberlain Jones ac J. Butterfield yn erbyn caniatâd cynllunio).

47/2005/0834/PF

Yn dilyn ystyried 1 llythyr gyda sylwadau pellach o: Cyngor Cymuned Tremeirchion Cwm Waen.
Trosi adeiladau sydd yno eisoes i ffurfio 2 annedd preswyl a newid y fynedfa i gerbydau.
**Pant Glas, Tremeirchion, Llanelwy**
Yn amodol ar ymgynghoriad gyda AONB JAC ar dirlunio ac ymdriniaeth o'r ffin.

47/2005/1028/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd R. Ll. Williams fod ganddo ddiddordeb yn y cais canlynol, a gadawodd y Siambr tra roedd y mater dan sylw.

Yn amodol ar beidio â derbyn sylwadau pellach yn codi mater cynllunio nad yw'r adroddiad hwn eisoes yn ymdrin ag ef.
Yn dilyn ystyriaeth o'r newid i'r adroddiad ac 1 llythyr gyda sylwadau pellach o: Ymgeisydd.
Codi annedd a gosod gwaith trin dŵr preifat.
**Rhan Rhif Cae OS 7280 ger Bryn Clwyd, Ffordd Treffynnon, Llanelwy**
Penderfynodd y pwyllgor roi CANIATAD cynllunio yn amodol ar ofyniad Adran 106
Adolygu rhan (ii) o'r argymhelliad i Adran 106 i ddarllen:
(ii) dymchwel yr holl adeiladau sydd ar y safle a'r tir o gwmpas o fewn rheolaeth yr ymgeisydd, ac eithrio adeilad y cut mochyn gynt a ddangosir ar y cynllun sydd ynghlwm.

03/2005/0814AD

Cyhoeddodd y Cynghorydd C. H. Williams fod ganddo ddiddordeb nad oedd yn un ariannol yn y cais canlynol
Arddangos arwydd-fwrdd heb ei oleuo
**Gwesty a Bwyty Bryn Howel, Ffordd Bryn Howell, Trevor, Llangollen**
CANIATAU Yn Amodol ar yr Amod Diwygiedig
1. Ni ddylid codi'r arwydd y rhoddir caniatâd iddo hyd nes y bydd arwydd(ion) eraill wedi'u tynnu fel y cytunwyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

03/2005/0939/PF

**Siaradwr Cyhoeddus o Blaid – Mr. K. Rafferty (ar ran yr ymgeisydd)**

Yn dilyn ystyriaeth o gywiriad i'r adroddiad ac un llythyr o sylwadau pellach o: Asiant yr Ymgeisydd
Dymchwel cyfleuster llenwi petrol a garej/depot bws, codi 36 o fflatiau gwarchodol i'r henoed a 1 fflat ar gyfer rheolwr y tŷ, cadw'r capel presennol fel siop, cyfleusterau cymunedol, tirlunio, maes parcio a gwaith cysylltiedig ar gyfer mynediad
**Garej Abbey Road, Abbey Road Llangollen**
Penderfynodd y pwyllgor roi CANIATAD cynllunio yn amodol ar Adran 106
Rhan a) a b) diwygiedig o Adran 106 i ddarllen:
(a) Talu swm cyfnewidiol o £214,000 yn lle darparu tai fforddiadwy ar y safle.
(b) Talu swm cyfnewidiol o £5852 yn lle darparu gofod agored o fewn y safle.
**Amod Diwygiedig**
8. "...yn ofynnol gan Amod Rhif 7 o'r caniatad hwn".
(Roedd y Cynghorydd G. Kensler yn dymuno nodi bod Mr. Rafferty wedi cadarnhau y byddai'n tynnu'n ôl yr apêl sydd yn nwylo'r Arolygiaeth Gynllunio ar hyn o bryd petai'r cais yn cael ei ganiatáu).
(Roedd J. Butterfield yn dymuno nodi ei bod wedi pleidleisio yn erbyn rhoi caniatad cynllunio).

03/2005/0940/CA

Dymchwel cyfleuster llenwi petrol, garej/depot bws, a dymchwel estyniadau i'r ochr ac i'r cefn o'r capel (caniatad ardal gadwraeth)
**Garej Abbey Road, Abbey Road Llangollen**

**GWRTHOD**

**21/2005/0978/PF**

**Siaradwr Cyhoeddus o Blaid – Mr. R. Astbury**

Yn dilyn ystyriaeth o 2 o lythyrau gyda sylwadau pellach o: Pennaeth Cludiant yn: I.K.Darmant, Garwyn, Ffordd Cilcaen, Llanferres
Codi annedd
**Camp Alyn, Tafarn-y-Gelyn, Llanferres, Yr Wyddgrug**
Penderfynwyd Gwrthod a chyflawni gweithredu gorfodol i ddod â defnyddio'r adeilad fel annedd i ben.
(Roedd y Cynghorydd R. E. Barton yn dymuno nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio.
Pleidleisiodd y Cynghorwyr M. Ll. Davies ac T. R. Hughes yn erbyn.
Pleidleisiodd y Cynghorydd D. A. J. Thomas o blaid cyflawni gweithredu gorfodol)

**GOHIRIWYD AM Y RHESYMAU A RODDWYD**

45/2005/0445/PO

Yn dilyn ystyriaeth o un llythyr gyda sylwadau pellach o: Pennaeth Tai.
Dymchwel annedd sy'n bodoli eisoes a datblygu tir drwy godi 17 o fflatiau gyda mynediad cysylltiol i gerbydau a cherddwyr (cais amlinellol)
**Tir yn Stryd Tarleton, Rhyl**
**GOHIRIWYD** i ganiatáu'r canlynol:

1. Ailasesu'r effeithiau ar y briffordd gan y Swyddog Priffyrdd, yng ngoleuni gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.
2. Cynnwys sylwadau ffurfiol Priffyrdd yn yr adroddiad.
3. Ymgynghori gyda'r Gwasanaeth Tân ar y trefniadau mynediad i'r cartref cyfagos a safle'r cais ei hunan.

07/2005/0777/PC

Cadw pont bwyso, estyniad sy'n gogwyddo i'r prif adeilad prosesu coed a strwythur y gwaith pilio a'r gwaith torri (caniatad ôl-weithredol)
**Corwen Forestry Timber Products Llandrillo, Corwen**
**GOHIRIO**
**GOHIRIO** ystyriaeth i ganiatáu'r canlynol:

1. Eglurhad/penderfyniad o'r cais defnydd cyfreithiol sydd heb ei benderfynu a'i berthnasedd i'r cais cynllunio;
2. Trafodaeth gyda'r swyddog cyfreithiol ar yr achos ynglŷn â'r posibilrwydd o osod amodau oriau gweithredu ar rannau o'r gwaith / prosesau ar wahân i'r rhai sy'n gynwysedig yn y cais cyfredol.

**515 MATERION GORFODI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD** yn y tri achos:*

*Paratoi a chyflwyno hysbysiad gorfodi cynllunio yn honni torri rheolaeth gynllunio yn ymwneud â methiant i gydymffurfio gydag amod cynllunio a osodwyd ar apêl dan Cod Rhif 27/75/96/PS gyda gofyniad y dylai defnydd preswyl y caban ddod i ben, a'i fod i'w ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau yn unig. Gweithredu angenrheidiol i'w gymryd i orfodi termau gofyniad Adran 106 a osodwyd ym 1991.*

*Cyfnod cydymffurfio a argymhellir – 6 mis.*

*Erlyn unrhyw berson(au) sy'n derbyn Hysbysiad os nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion o fewn y cyfnod cydymffurfio priodol ac os na chyflwynir apêl mewn perthynas ag ef.*

*(i)* *ENF/2005/0059*

*Plot 1, Safle Chalet Gwyliau, Llantysilio, Llangollen*

*(ii)* *ENF/2005/0060*

*Plot 3, Safle Chalet Gwyliau, Llantysilio, Llangollen*

*(iii)* *ENF/2005/0061*

*Plot 4, Safle Chalet Gwyliau, Llantysilio, Llangollen*

**516 ADOLYGIAD ACHOSION A AWDURDODWYD GAN Y PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus er gwybodaeth i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn yr Adroddiad er gwybodaeth.*

**517 EITEM ER GWYBODAETH – SYMIAU CYFNEWIDIOL GOFOD CYHOEDDUS AGORED**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus er gwybodaeth i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn yr adroddiad.*

Gwnaeth y Cynghorydd Barton gais am adolygiad o'r protocol i sicrhau nad yw arian sydd heb ei wario erbyn y dyddiadau cau yn cael ei wastraffu.

**518 DIWEDDARIAD O BENDERFYNIADAU APÊL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus er gwybodaeth i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn yr Adroddiad er gwybodaeth.*

Gwnaeth y Cynghorydd Barton gais am gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r eitem yn y dyfodol. Cytunwyd cynnwys enw'r swyddog achos perthnasol sy'n rhan o unrhyw apêl, a rhestru bob apêl sydd i ddod (gan gynnwys dyddiadau ymholiadau).

**519 PENDERFYNIADAU PWERAU DIRPRWYEDIG – MEDI 2005**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus er gwybodaeth i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn yr Adroddiad er gwybodaeth.*

Un cywiriad – Tudalen 9 15/2005/0018/AD – Gwrthodwyd caniatad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 y prynhawn.

************